# ATODLEN 3

## ARBEDION A DARPARIAETHAU TROSIANNOL MEWN PERTHYNAS Å RHAN XA O DDEDDF 1989 AC ATODLEN 9A I'R DDEDDF HONNO, A RHAN 2 O'R MESUR

### Cofrestru Gwarchodwyr Plant a Darparwyr Gofal Dydd o dan Ran XA o Ddeddf 1989 ac Atodlen 9A i'r ddeddf honno ar 1 Ebrill 2011

**2.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â pherson sydd, yn union cyn y dyddiad perthnasol—

(a) wedi ei gofrestru fel gwarchodwr plant gan Weinidogion Cymru o dan adran 79(F)(1) o Ddeddf 1989 (*caniatáu neu wrthod cofrestriad*); neu

(b) wedi ei gofrestru fel darparydd gofal dydd i blant gan Weinidogion Cymru o dan adran 79(F)(2) o Ddeddf 1989.

(2) Yn effeithiol o'r dyddiad perthnasol ymlaen, at ddibenion Rhan 2 o'r Mesur, trinnir person y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) fel pe bai wedi gwneud cais am gofrestriad, a chofrestriad wedi ei ganiatáu iddo.

(3) Pan fo cofrestriad person wedi ei drosglwyddo yn unol ag is-baragraff (2), bydd unrhyw amod a osodwyd ar y person hwnnw o dan adran 79F(3) (*caniatáu neu wrthod cofrestriad*) neu 79M(2) (*apelau*) o Ddeddf 1989 ac a oedd yn gymwys i gofrestriad y person yn union cyn y dyddiad perthnasol, yn parhau i gael effaith fel pe bai'n amod a osodwyd o dan adran 29 (*amodau wrth cofrestru*) neu adran 37 (*apelau*) o'r Mesur.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff 14, mae'r paragraff yn gymwys hyd yn oed pan fo cofrestriad y person, yn union cyn y dyddiad perthnasol, wedi ei atal dros dro gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 3 o Reoliadau 2004.

(5) Nid yw is-baragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â pherson a oedd, cyn y dyddiad perthnasol, wedi cyfleu i Weinidogion Cymru ei ddymuniad i beidio â bod yn gofrestredig fel gwarchodwr plant o dan adran 24 neu, yn ôl fel y digwydd, fel darparydd gofal dydd i blant o dan adran 26 o'r Mesur.

(6) Nid yw is-baragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â pherson a oedd, yn union cyn y dyddiad perthnasol, wedi ei gofrestru fel gwarchodwr plant o dan adran 79F(1) neu, yn ôl fel y digwydd, fel darparydd gofal dydd o dan adran 79F(2) o Ddeddf 1989 ac, ar y dyddiad perthnasol ac yn unol â dyfodiad i rym Gorchymyn Eithriadau 2010, nad yw bellach yn gymwys i gofrestru fel gwarchodwr plant o dan adran 24 neu, yn ôl fel y digwydd, fel darparydd gofal dydd i blant o dan adran 26 o'r Mesur.